# POLISI ANIFEILIAID A GEDWIR

## CYNNWYS

1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU

2. PWRPAS

3. CWMPAS

4. CYFRIFOLDEBAU

5. MANYLION Y POLISI

6. FFACTOR RISG

7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

8. CWYNION

9. ADOLYGU PENDERFYNIAD

10. CYFEIRNODAU

11. COFNODION

12. ADOLYGU

## 1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU

| Rhifyn | Disgrifiad Byr o’r Rheswm dros Newid | Perchennog y Ddogfen | Dyddiad Rhannu |
|---|---|---|---|
| 0 | Adolygiad o’r polisi presennol dyddiedig 18 Mawrth 2010 | | |
| 1 | Adolygu fersiwn bresennol Rhifyn 0 Dyddiad 09/2013 | Geraint Jones | 02.11.2018 |
| 2 | Polisi wedi’i ddiweddaru gyda brandio Adra | Geraint Jones | 07.10.2019 |
| 3 | Diweddaru terminoleg i adlewyrchu Deddf Rhentu Cartrefi 2016 | Geraint Jones | 01.04.2022 |
| 4 | Diweddariad yn dilyn adolygiad i Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 | Geraint Jones | 01.02.2024 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2. PWRPAS

2.1 Pwrpas y polisi hwn yw nodi sut y bydd Adra (Tai) Cyfyngedig yn rheoli anifeiliaid a gedwir yn ein cartrefi. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i anifeiliaid a gedwir gan gwsmeriaid, gan gynnwys mamaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, pryfed ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill, a fydd yn cael eu galw yn 'anifeiliaid a gedwir' o hyn ymlaen.

2.2 Mae Adra yn cydnabod bod cadw anifeiliaid yn gallu bod o les i gwsmeriaid ac mae'n cefnogi cadw anifeiliaid anwes mewn modd cyfrifol, gan sicrhau bod lles yr anifail yn cael ei ofalu amdano. Fodd bynnag, sefydlwyd y polisi a'r gweithdrefnau perthnasol i atal perchnogaeth anghyfrifol ar anifeiliaid anwes, gallai anifeiliaid ddioddef oherwydd hynny a gallai achosi niwsans i gymdogion.

2.3 Bydd torri contract drwy achosi niwsans neu ddiflastod yn cael ei drin yn unol â Pholisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Adra (NSpol01c)

## 3. CWMPAS

3.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl ddeiliaid contract a darpar ddeiliaid contract eiddo yr ydym ni yn berchen arnynt.

3.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl anifeiliaid a gedwir gan gynnwys mamaliaid, adar, ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod, pryfed ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill, a fydd yn cael eu galw yn 'anifeiliaid a gedwir' o hyn ymlaen.

## 4. CYFRIFOLDEBAU

4.1 Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n effeithiol, a bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol yn y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn.

## 5. MANYLION Y POLISI

5.1 Mae Adra yn gofyn i'w ddeiliaid contract fod yn berchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol fel sy'n cael ei amlinellu yn Neddf Lles Anifeiliaid 2066, a ddaeth i rym yn 2007, a chyflwynodd y cysyniad o Ddyletswydd i Ofalu ar gyfer perchnogion anifeiliaid anwes. Mae hyn yn golygu bod gan berchnogion anifeiliaid anwes rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau eu bod yn gofalu am ofynion lles eu hanifeiliaid anwes, gan gynnwys:

- lle addas i fyw ynddo
- diet cywir gan gynnwys dŵr glân
- y gallu i ymddwyn yn naturiol
- ar gyfer unrhyw angen cartrefu, gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt
- atal a thrin salwch ac anafiadau

5.2 Mae Adra yn cynghori cwsmeriaid i ystyried y cwestiynau a nodir yn Atodiad 1 cyn penderfynu cadw anifail anwes.

5.3 Bydd Adra yn darparu peth gwybodaeth i gwsmeriaid am gadw anifeiliaid ar ei wefan.

5.4 Gofynnir i ddarpar denantiaid nodi manylion unrhyw anifeiliaid a gedwir ganddynt ar eu ffurflen cais am dŷ.

5.5 Mae Adra yn cydnabod bod rhai cwsmeriaid angen cymorth neu angen cŵn tywys i'w cynorthwyo wrth fyw'n annibynnol. Caniateir cŵn tywys ar gyfer pobl ddall, cŵn clywed ar gyfer pobl fyddar neu gŵn ar gyfer pobl anabl. Bydd Adra yn ymgynghori neu yn hysbysu'r RSPCA am unrhyw bryderon lles.

5.6 Efallai y bydd Adra yn tynnu'n ôl unrhyw ganiatâd a roddwyd o'r blaen os yw'r anifail/anifail anwes yn achosi niwsans neu ddiflastod, e.e. os cedwir gormod o anifeiliaid ar unrhyw un adeg, os oes gan Adra bryderon am allu'r cwsmer fel perchennog anifail cyfrifol, neu os na all y cwsmer ddangos i Adra ei fod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a chanllaw mewn perthynas â chadw ac edrych ar ôl yr anifail.

5.7 Caiff y contract ei dorri os yw cwsmeriaid Adra yn caniatáu i anifeiliaid anwes ddifrodi eiddo Adra neu achosi niwsans neu ddiflastod i bobl eraill yn y gymdogaeth.

5.8 Os yw anifail a gedwir yn baeddu mewn unrhyw eiddo neu ardal gymunol, yna, mae Adra yn disgwyl i'r perchnogion ymddwyn yn gyfrifol drwy lanhau yn rheolaidd. Dylid cynnal a chadw lloches ac amgylchedd yr anifail a gedwir yn lân a dylid ei lanhau a'i ddiheintio bob dydd.

5.9 Ni ddylid annog unrhyw anifail a gedwir i achosi niwsans neu ddiflastod i drigolion eraill, staff Adra, contractwyr nag ymwelwyr.

5.10 Ni chaniateir codi lloches ar gyfer anifail a gedwir, naill ai yn fewnol neu allanol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Adra yn unol â Pholisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid Adra (LFpol03c).

5.11 Ni chaniateir i gwsmeriaid Adra ddefnyddio eu cartref i redeg eu busnes o gartref sy'n golygu bridio neu gadw anifeiliaid neu adar neu redeg llety anifeiliaid.

5.12 Rhaid i gwsmeriaid ofalu am anghenion lles eu hanifail anwes. Gyda chathod a chŵn mae hyn yn cynnwys brechu, triniaeth atal llyngyr a chwain yn unol â chanllawiau'r milfeddyg. Yn achlysurol gallwn ofyn am dystiolaeth bod y triniaethau hyn wedi eu rhoi.

5.13 Rhaid i berchnogion microsglodynnu yn gyfreithiol cŵn dros 8 wythnos oed, a dylent gysylltu â Milfeddyg am y broses microsglodynnu. Dylai perchnogion sicrhau bod adar a gedwir yn cael eu modrwyo ar gyfer eu hadnabod.

5.14 Mae bob cath angen blwch toiled (un ar gyfer bob cath o leiaf) a dylid eu darparu i leihau'r problemau yn gysylltiedig gyda chathod yn baeddu mewn gerddi trigolion eraill.

5.15 Ni ddylid gadael blwch gwastraff/toiled cath mewn ardaloedd cymunol mewnol/llwybrau cerdded ardaloedd cymunol. Ni ddylai anifeiliaid grwydro o gwmpas

ardaloedd cymunol mewnol. Ni ddylai cŵn grwydro o gwmpas gerddi cymunol oni bai bod oedolyn yn eu goruchwylio.

5.16 Dylai adar mewn cewyll fedru ymestyn eu hadenydd i bob cyfeiriad a chyda digon o le i sefyll a chlwydo.

5.17 Ni chaniateir yr anifeiliaid canlynol yng nghartrefi/gerddi ac ardaloedd cymunol Adra:

- Anifeiliaid fferm, er enghraifft defaid, wŷn bach, geifr, moch, gwartheg, ceffylau, merlod, ieir, ffowlyn a hwyaid. (Mewn rhai achosion eithriadol fodd bynnag, gellir cael caniatâd i gadw ieir a hwyaid os yw'r eiddo'n addas ac os nad yw'r anifeiliaid yn creu niwsans, diflastod neu ddifrod i'r eiddo gan gynnwys yr ardd).
- Anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 gan gynnwys er enghraifft mathau neilltuol o nadroedd fenymig, mathau neilltuol o bryfed cop ac ymlusgiaid gan gynnwys aligatorod a chrocodeilod.
- Unrhyw gi sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr o fathau o gŵn sydd wedi'u gwahardd at ddibenion adran 1 Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan gynnwys
  - Daeargi Tarw Pwll
  - Tosa Inu
  - Dogo Ariannin
  - Fila Brazeliero.
  - XL Bully

  *Efallai yr ystyrir caniatáu i gi sydd wedi'i wahardd at ddibenion adran 1 o Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 fyw yn eiddo y mae Adra yn berchen arnynt yn amodol::*

    - *eu bod wedi'u cynnwys ar y Mynegai o Gŵn sydd wedi'u Heithrio;*
    - *bod y cwsmer wedi rhoi copi o'r Dystysgrif Eithrio berthnasol i Adra o fewn 5 diwrnod i Adra ofyn am un;*
    - *nad oes gan Adra bryderon am allu'r cwsmer i ofalu am anifeiliaid a'u rheoli;*
    - *bod y cwsmer yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol, a gall ddangos hyn i Adra o fewn 5 diwrnod i unrhyw gais (e.e. cadw'r ci mewn man diogel na allant ddianc ohono, cael yswiriant, niwtro'r ci, a sicrhau bod y ci yn gwisgo mwsel mewn mannau cyhoeddus ac o fewn terfyn yr Eiddo pan mae Staff Adra yn ymweld am unrhyw bwrpas. Er osgoi unrhyw amheuaeth, ystyrir bod unrhyw gyntedd cymunol, gardd gymunol, llwybr a rennir ayyb yn le cyhoeddus ac felly rhaid gwisgo mwsel yn y lleoliadau yma bob amser.*

- Rhywogaethau prin, megis rhai mathau o adar ysglyfaethus
- Gellir cael gwybodaeth gyfredol am y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn www.gov.uk/defra

5.18 Mae enghreifftiau o niwsans neu ddiflastod gan anifeiliaid a gedwir yn cynnwys:

- anifeiliaid sy'n crwydro a heb fod dan ofal y perchennog
- anifeiliaid yn baeddu mewn mannau cymunol a/neu erddi a pherchnogion yn methu â chlirio'r llanast yn foddhaol
- storio anghyfrifol o fwyd anifail (e.e. storio blêr/anaddas a/neu yn denu fermin)
- anifeiliaid yn tarfu drwy wneud sŵn
- perchnogion anghyfrifol yn methu â chlirio'r llanast
- anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn atal staff neu gontractwyr Adra rhag gwneud eu gwaith
- ymddygiad bygythiol neu beryglus
- gormod o anifeiliaid o fewn un aelwyd
- arogl annymunol gan anifeiliaid anwes
- anifeiliaid ymosodol
- tenantiaid yn ymddwyn yn anghyfrifol wrth fwydo a denu adar gwyllt a/neu fermin (e.e. drwy fwydo gwylanod o fflatiau)
- cwsmeriaid yn peidio â chadw at y gyfraith a chanllaw perthnasol o ran cadw anifeiliaid

5.19 Bydd Adra yn gweithio ag asiantaethau perthnasol eraill i ddelio ag achosion o greulondeb i anifeiliaid neu gam-drin anifeiliaid yn ein heiddo. Byddwn yn cyfeirio achosion o greulondeb i anifeiliaid i'r RSPCA.

- Os bydd staff Adra neu gynrychiolydd yn gweld neu'n amau achos o greulondeb neu gam-drin anifail byddant yn adrodd y digwyddiad i'r RSPCA neu RSPB.
- Os bydd Adra yn derbyn unrhyw wybodaeth gan y RSPCA / RSPB ynglŷn â rhybudd neu euogfarn am greulondeb neu gam-drin anifeiliaid gallwn gymryd camau pellach.
- Rhaid i gwsmeriaid Adra gydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a oedd yn cyflwyno dyletswydd i ofalu ar unrhyw unigolyn yn cadw anifail i sicrhau eu bod yn gofalu amdano fel y nodir yn 5.1

## 6. FFACTOR RISG

6.1 Risg nad oes gan Adra bolisi eglur ar anifeiliaid/anifeiliaid anwes sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac arfer gorau yn arwain at golli enw da ac o bosib heriau cyfreithiol costus.

6.2 Y risg nad yw Adra yn darparu canllaw eglur o ran perchnogion anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn eu heiddo.

## 7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1 Mae Adra yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn cwmpas ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun.

7.2 Bydd Adra yn sicrhau bod staff yn ystyried gofynion unigol ein tenantiaid beth bynnag yw eu hoed, rhyw, hil, dosbarth, diwylliant, rhywioldeb neu anabledd wrth asesu ceisiadau am anifeiliaid anwes neu ymateb i unrhyw gwynion.

## 8. CWYNION

8.1 Mae Adra yn cydnabod eich hawl i ddwyn ymlaen cwyn am ymarfer y polisi hwn. Bydd unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei thrin o dan CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon.

8.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad sy'n berthnasol i'r polisi yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

## 9. ADOLYGU PENDERFYNIAD

9.1 Mae Adra yn cydnabod yr hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â'r polisi hwn. Bydd unrhyw adolygiad o'r fath yn cael ei drin yn dilyn ein proses Adolygu Penderfyniad - CCp04c.

9.2 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn rhesymol ac yn cydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth berthnasol.

## 10. CYFEIRNODAU

10.1 Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Pheryglus 1976

10.2 Deddf Cŵn Peryglus 1991

10.3 Deddf Lles Anifeiliaid 2006

10.4 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018

10.5 Polisi Anifeiliaid a Gedwir Adra

10.6 Polisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid Adra

10.7 Nspol01c - Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

10.8 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

10.9 Contract Adra

## 11. DIOGELU DATA

11.1 Mae'r polisi hwn wedi'i ystyried yn unol â chanllaw gweithdrefn Diogelu Data Adra i sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda rheoliadau diogelu data 2018. Ystyriwyd y polisi yn

erbyn y broses sgrinio Effaith Diogelwch Data a daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw risg i ddata personol o fod yn gweithredu'r polisi hwn.

## 12. ADOLYGU

12.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob 3 blynedd, neu mewn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth, canllaw rheoliadol, arfer da neu newidiadau i bolisi arall perthnasol gan Adra.

## ATODIAD 1

Mae Polisi Anifeiliaid a Gedwir Adra yn cydnabod bod cadw anifeiliaid yn gallu bod o les i gwsmeriaid ac yn cefnogi cadw anifeiliaid mewn modd cyfrifol. Fodd bynnag, gall perchnogaeth anghyfrifol ar anifeiliaid achosi dioddefaint i anifeiliaid ac achosi niwsans a diflastod i drigolion eraill.

**Bod yn berchennog anifail cyfrifol**

Po fwyaf o ystyriaeth a rowch cyn bod yn berchennog anifail, gorau oll. Mae'n anodd iawn ailgartrefu anifail unwaith y byddwch wedi closio ato'n emosiynol.

Cyn penderfynu cadw anifail, mae Adra yn gofyn i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

1. **A yw'r anifail yn addas i'ch ffordd o fyw ac amgylchiadau'r teulu?**

   A ydych chi allan yn aml, a oes gennych chi blant ifanc yn yr aelwyd?

2. **A yw eich adeilad yn addas?**

   A oes gennych chi fynediad hawdd at ardd, a ydych chi'n byw wrth ymyl ffordd brysur, a yw fflat yn addas ar gyfer cadw'r math o anifail sydd gennych dan sylw?

3. **Beth fydd cost hyn i gyd?**

   Gellir bod yn barod ar gyfer rhai eitemau, er enghraifft cost gychwynnol yr anifail, cyfarpar neu gostau parhaus fel bwyd a dillad gwely. Beth am y costau annisgwyl megis biliau'r milfeddyg?

4. **Materion iechyd – a oes milfeddyg lleol a all ofalu am eich anifail?**

   Mae hyn yn bwysig iawn os oes gennych chi anifail anarferol neu egsotig. A oes angen brechiadau rheolaidd?

5. **A ydych chi am yswirio, a/neu microsglodynnu eich anifail?**

   Mae Adra yn annog hyn ond mae cost yn gysylltiedig â'r naill a'r llall. Mae'n ofyniad cyfreithiol i microsglodynnu cŵn dros 8 wythnos oed.

6. **Beth fydd yn digwydd i'r anifail os ydych i ffwrdd o'ch cartref, ar wyliau er enghraifft neu i ffwrdd oherwydd salwch annisgwyl?**

   A oes gennych chi ffrindiau neu deulu sy'n fodlon ac yn medru gofalu am eich anifail os nad ydych gartref?

7. **Rheoli poblogaeth**

   Os ydych yn bwriadu cadw cath gofynnwn i chi ei hysbaddu, rydym yn argymell eich bod yn ysbaddu cŵn ac anifeiliaid eraill hefyd. Mae Adra yn ystyried gorboblogaeth o anifeiliaid mewn aelwyd yn fater o niwsans a diflastod.

**8. A fydd eich dewis o anifail yn debygol o achosi diflastod a niwsans i'ch cymdogion?**

Mae'r mwyafrif ohonom yn dymuno byw'n gytûn â'n cymdogion - gall fod yn syniad da cael sgwrs gyda nhw cyn i chi wneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â chael anifail yn eich cartref?

**9. A oes gennych chi ddigon o ymroddiad i ofalu am eich anifail?**

Er enghraifft:

- a oes gennych chi gynllun ar gyfer sut y byddwch yn gofalu am eich anifail anwes a'i reoli?
- rhaid mynd â chŵn am dro bob dydd – a oes gennych yr amser a'r ymroddiad i wneud hyn?
- ni ddylid gadael cŵn i gyfarth yn y tŷ neu'r ardd drwy'r dydd gan achosi niwsans – ystyriwch sut y byddwch yn delio ag unrhyw broblemau neu gwynion pe byddai rhai.
- rhaid gofalu'n iawn am anifeiliaid ac anifeiliaid anwes ac mae hyn yn cymryd amser, ymdrech a chost.
- cofiwch efallai y bydd rhai anifeiliaid yn byw am amser hir e.e. rhai parotiaid a rhywogaethau ymlusgol - gan fyw yn hirach na'r perchennog
- a ydych wedi ystyried darparu ar gyfer yr anifail pan na fydd modd i chi ofalu amdano

Cyngor Adra yw i chi ystyried yr uchod o ddifrif cyn penderfynu cadw anifail anwes neu anifail yn eich cartref.